



Ein cyf/Our ref: MA-L/CG/0475/19

Mick Antoniwn AC
Cadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol
Cynulliad Cenedlaethol Cymru

18 Mehefin 2019

Annwyl Mick,

BIL DEDDFWRIAETH (CYMRU)

Diben y llythyr hwn yw rhoi gwybod i'r Pwyllgor fy mod i wedi gosod gerbron y Cynulliad Cenedlaethol heddiw Femorandwm Esboniadol diwygiedig i'r Bil Deddfwriaeth (Cymru). Mae'r Memorandwm yn adlewyrchu'r newidiadau a wnaed i'r Bil gan y Pwyllgor yn ystod y trafodion Cyfnod 2.

Newidiadau i adran 2(7) oedd un o'r newidiadau hynny. Mae'r adran hon yn awr yn darparu ar gyfer adroddiad blynyddol i'r Cynulliad Cenedlaethol ar y cynnydd a wnaed o dan raglenni i wella hygyrchedd cyfraith Cymru. Mae paragraff 161 o'r Memorandwm Esboniadol (a Thabl 6) yn ymdrin â'r adroddiad blynyddol, ond hoffwn dynnu eich sylw hefyd at baragraffau newydd 217 a 218 sy'n ymdrin â'r adolygiad ôl-weithredu. Byddwch yn gweld bod hyn yn adlewyrchu'r ymrwymadau a roddwyd eisoes gan y Llywodraeth i adolygu effeithiolrwydd y Bil hanner ffordd drwy'r rhaglen gyntaf i gael ei chyflwyno o dan Ran 1 (hy yn 2023).

Yn ystod trafodion Cyfnod 2, cefais fy ngwahodd i ysgrifennu i'r Pwyllgor gyda'n barn ni am sut y gallai Aelodau'r Cynulliad ddylanwadu ar gynnwys yr adolygiad canol tymor. Rwy'n hynod gefnogol i rôl y Cynulliad o ran ystyried a gwerthuso adroddiadau a wneir iddo gan y Cwnsler Cyffredinol o dan adran 2(7), a'r adolygiad canol tymor hefyd. Yn yr un modd, rwy'n annog y Cynulliad i adolygu'r deddfwriaeth unrhyw bryd y bydd yn dewis gwneud hynny.

Mae Aelodau'r Cynulliad eisoes wedi dechrau dylanwadu ar siâp a chynnwys yr adolygiad canol tymor, yn adroddiadau Cyfnod 1 y Pwyllgor hwn a'r Pwyllgor Cyllid. Er enghraifft, gwelwch o baragraff 217 o'r Memorandwm Esboniadol diwygiedig, y bydd yr adolygiad tymor canolig yn cynnwys manylion yn ymwneud â'r adnoddau ar gyfer cyflwyno'r rhaglen gyntaf hon a'r goblygiadau ariannol o wneud hynny. Roedd y dystiolaeth a glywodd y Pwyllgor hwn yn ystod Cyfnod 1 hefyd yn ymwneud ag adrodd, a byddwn yn cadw hyn mewn cof wrth inni ddatblygu'r dull adrodd.

Rhaid inni feddwl yn awr ynghylch natur yr adolygiad, er mwyn inni allu sicrhau bod modd dechrau casglu unrhyw wybodaeth sylfaenol neu gynllunio'n effeithiol ar gyfer unrhyw

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

PSCGBM@gov.wales / YPCCGB@llyw.cymru

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

ymgais i ennyn diddordeb rhanddeiliaid. Byddem yn croesawu barn y Pwyllgor er mwyn helpu i ddatblygu'r syniadau cynnar hynny.

Rwy'n rhagweld y byddai'r adolygiad canol tymor yn gwneud dau beth yn bennaf. Yn gyntaf, byddai'n adrodd ar gynnydd o ran gweithredu'r rhaglen i wella hygyrchedd cyfraith Cymru ac i ystyried a ddylid newid ei chynnwys arfaethedig. Yn ail (ac yn fwy cyffredinol), byddai'n darparu craffu ôl-ddeddfwriaethol ar y Bil ei hun, gan gynnwys Rhannau 2 a 3.

Hoffwn gynnig gwasanaeth fy swyddogion i'r Pwyllgor – efallai pan fydd y Bil wedi cael ei basio a'm datganiad i ar fy safbwynt ynghylch cydgrynhoi a chodeiddio wedi'i gyhoeddi – er mwyn deall beth fyddai'r Pwyllgor yn ystyried sy'n bwysig, ac i werthfawrogi'n well sut, ym marn yr Aelodau presennol, y gallai Cynulliad y dyfodol gymryd rhan yn y broses o gynnal yr adolygiad canol blwyddyn. Hyderaf y gallai'r sgyrsiau hyn helpu i siapio'r farn y gallai'r Pwyllgor hwn ddymuno ei throsglwyddo i'w olynydd wrth i gyfnod y Cynulliad hwn ddirwyn i ben.

Yn y cyfamser, byddaf yn parhau i ystyried gwaith y Pwyllgor o safbwynt craffu ar y Bil, er mwyn helpu i siapio'r ffordd y dylid ymgymryd â'r adolygiad ôl-weithredu.

Yn gywir,



Jeremy Miles AC

Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog Brexit
Counsel General and Brexit Minister